

Rhif: WG17537



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a Phrofion

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2013



Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a Phrofion

Cynulleidfa	Ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig yng Nghymru; awdurdodau lleol a chonsortia addysg rhanbarthol yng Nghymru; undebau; gwahanol sefydliadau sydd â diddordeb mewn llythrennedd a rhifedd; ac aelodau o'r cyhoedd.
Trosolwg	Dechreuwyd ymgynghoriad ar-lein ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLIRh) a Phrofion drafft ar 11 Mehefin 2012 a daeth i ben ar 12 Hydref 2012. Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gyflwynwyd ac yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru.
Camau i'w cymryd	Dim – er gwybodaeth yn unig.
Rhagor o wybodaeth	Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon i: Cangen y Cyfnod Sylfaen a Chwricwlwm Ysgolion Yr Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ Ffôn 029 2082 5447 e-bost: is-adrancwricwlwm@cymru.gsi.gov.uk
Copiau ychwanegol	Gellir dod o hyd i'r ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau
Dogfennau cysylltiedig	<i>Rhaglen Llythrennedd Cenedlaethol</i> (Llywodraeth Cymru, 2012); <i>Rhaglen Rhifedd Genedlaethol</i> (Llywodraeth Cymru, 2012); <i>Y Fframwaith Sgiliau yng nghyfnod allweddol 2: Arfarniad o effaith y Fframwaith Sgiliau anstatudol i ddysgwyr rhwng 3 a 19 oed yng Nghymru yng nghyfnod allweddol 2</i> (Estyn, 2011); <i>Y Fframwaith Medrau yng nghyfnod allweddol 3: Arfarniad o effaith y fframwaith medrau anstatudol ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 19 oed yng Nghymru yng nghyfnod allweddol 3</i> (Estyn, 2012); <i>Ar Drywydd Dysgu map llwybrau</i> (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007); <i>Asesu cynnydd mathemategol plant 5–14 oed mewn ysgolion yng Nghymru</i> (Llywodraeth Cymru, 2012); <i>Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu</i> (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008); <i>Canllaw ar addysgu sgiliau ysgrifennu</i> (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010); <i>Datblygu uwch sgiliau llythrennedd ar draws y cwricwlwm</i> (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010).

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Trosolwg	2
Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad	3
Ymateb i'r ymgynghoriad a'r camau nesaf	14
Cyhoeddusrwydd	17

Cyflwyniad

Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, Leighton Andrews AC, wedi gwneud codi safonau llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion yn flaenoriaeth.

Yn ei brif anerchiad 'Codi Safonau Ysgolion' ar 29 Mehefin 2011 i'r Sefydliad Materion Cymreig, cyhoeddodd y bwriad i gyflwyno Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLIRh) newydd i bob dysgwr rhwng 5 a 14 oed.

Datblygwyd y FfLIRh drwy ddefnyddio nodweddion modelau rhyngwladol sy'n perfformio'n dda a'r hyn a wyddom am beth y mae ysgolion da yng Nghymru eisoes yn ei wneud.

Datblygwyd y FfLIRh mewn partneriaeth â phanel cynghori Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) sy'n cynnwys cynghorwyr llythrennedd a rhifedd awdurdodau lleol. Cafodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) ei chynrychioli a rhoddwyd fersiynau electronig rheolaidd iddi o'r FfLIRh drafft wrth iddo ddatblygu.

Bydd ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig yn defnyddio'r FfLIRh i sicrhau bod y broses o addysgu sgiliau llythrennedd a rhifedd wedi'i hymgorffori ym mhob pwnc ar draws y cwricwlwm yn hytrach na'i bod yn canolbwyntio ar wersi Cymraeg, Saesneg a mathemateg yn unig.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i bob un o gwestiynau'r ymgynghoriad sy'n ymwneud â'r FfLIRh. Caiff adroddiad cryno arall ei ddarparu ar yr ymatebion sy'n ymwneud â'r profion darllen a rhifedd.

Trosolwg

Dechreuwyd ymgynghoriad ar-lein ar y FfLIRh drafft a phrofion ar 11 Mehefin 2012 a daeth i ben ar 12 Hydref 2012. Cafwyd 160 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar-lein.

Cynhaliwyd pum digwyddiad ymgynghori ar y FfLIRh hefyd mewn lleoliadau amrywiol ledled Cymru a gwmpasodd bob un o bedwar rhanbarth y consortia yng Nghymru. Roedd y sesiwn yn cynnwys cyflwyniad i'r FfLIRh a chyflwyniad cryno gan Estyn er mwyn egluro'r cefndir a'r angen am y FfLIRh, gyda gwaith bwrdd i ddilyn ar y FfLIRh.

Daeth dros 300 o gynadleddwyr i'r digwyddiadau ymgynghori ac yn eu plith roedd athrawon, swyddogion awdurdod lleol (ALI), cynrychiolwyr undeb a staff o sefydliadau amrywiol oedd â diddordeb mewn llythrennedd a rhifedd. Cynlluniwyd pedwar digwyddiad yn wreiddiol – un i bob rhanbarth consortia. Ond yn sgil y galw, cynhaliwyd digwyddiad arall yn Nhrefforest. Cynhaliwyd y digwyddiadau yn y lleoliadau canlynol:

- **11 Gorffennaf 2012:** Consortia De-ddwyrain Cymru yng Nghanolfan Gynadledda YMCA Casnewydd
- **14 Medi 2012:** Consortia Canolbarth y De yng Nghanolfan Gynadledda ESIS, Trefforest
- **18 Medi 2012:** Consortia De Orllewin a Chanolbarth Cymru yng Nghanolfan Gynadledda Halliwell, Coleg y Drindod, Caerfyrddin
- **19 Medi 2012:** Consortia Gogledd Cymru, Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno
- **21 Medi 2012:** Consortia Canol De Cymru yng Nghanolfan Gynadledda ESIS, Trefforest.

Yn ôl ystadegau Llywodraeth Cymru a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 5 Tachwedd 2012, roedd 1388 o ysgolion yn y sector cynradd. Cymerodd 97 o'r rheini ran yn yr ymgynghoriad drwy gyflwyno ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad neu drwy fynychu digwyddiad ymgynghori.

Mae 216 o ysgolion uwchradd yng Nghymru ar hyn o bryd. Cymerodd 64 ohonynt ran yn yr ymgynghoriad.

Mae 43 o ysgolion arbennig yng Nghymru ar hyn o bryd. Cymerodd 11 ohonynt ran yn yr ymgynghoriad.

Cafwyd ymatebion hefyd gan ALLau, undebau, sefydliadau amrywiol sydd â diddordeb mewn llythrennedd a rhifedd ac aelodau o'r cyhoedd.

Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Mae'r adran nesaf yn nodi'r prif bwyntiau o'r broses ymgynghori ar-lein ac o ddigwyddiadau ymgynghori'r FfLIRh. Cododd y cwestiynau ymatebion penagored felly mae'r wybodaeth a grynhoir isod yn ansoddol ac yn seiliedig ar y prif themâu a ddeilliodd o'r amrywiaeth fawr o ymatebion a gafwyd.

Cwestiwn 1 – A ydych yn meddwl bod y disgwyliadau o ran asesu o flwyddyn i flwyddyn yn taro'n gywir? Os nad ydych, eglurwch pam ac awgrymwch ddisgwyliadau eraill.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion o'r farn bod y disgwyliadau o flwyddyn i flwyddyn wedi'u taro'n gywir. Fodd bynnag, nododd nifer sylweddol o'r ymatebion hyn hefyd bod y disgwyliadau yn heriol iawn. Cydnabuwyd yn gyffredinol fod angen disgwyliadau heriol er mwyn codi safonau ond y byddai'n cymryd amser i gyflawni hyn. Roedd y prif bwyntiau fel a ganlyn.

- Mae'r FfLIRh yn hawdd i ddilyn gyda chyfnod allweddol ar bob tudalen. Mae'r tablau yn ei gwneud yn hawdd i ddilyn ac asesu.
- Mae ffocws clir a gwerthfawrogiad na chaiff y data ei gasglu'n genedlaethol ond yn hytrach ei ddefnyddio gan ysgolion at ddibenion dysgu, e.e. i helpu i nodi dysgwyr sy'n tangyflawni.
- Mae'n bwysig bod y Cyfnod Sylfaen a chamau cynradd addysg yn adeiladu'n llwyddiannus ar ddisgwyliadau'r FfLIRh cyn bod dysgwyr yn symud i'r ysgol uwchradd.
- Mae angen hyblygrwydd ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio yn uwch neu'n is na'u disgwyliadau ar gyfer lefel eu blwyddyn. Mae risg y gallai'r FfLIRh gael ei ystyried yn rhy lythrennol yn ôl oedran yn hytrach na chamau a chael ei ddefnyddio i addysgu'r hyn a restrir ym mhob grŵp blwyddyn heb ystyried cyflawnwyr uchel a chyflawnwyr isel. Felly dylai disgwyliadau o flwyddyn i flwyddyn gael eu hystyried yn ganllaw wrth i ddysgwyr ddatblygu ar gyflymdra gwahanol.
- Bydd y disgwyliadau uwch yn broblem i ysgolion mewn ardaloedd mwy difreintiedig yng Nghymru lle y gall cyrhaeddiad dysgwyr fod yn is na'r disgwyl.
- Bydd y disgwyliadau uwch yn broblem i ddysgwyr nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf.
- Disgwylir i ddysgwyr allu defnyddio rhai sgiliau ar draws y cwricwlwm cyn iddynt feistrolï'r sgil mewn gwersi Cymraeg, Saesneg neu fathemateg.

- Efallai na fydd dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gwneud yr un cynnydd yn flynyddol o gymharu â dysgwyr eraill, felly gall eu cynnydd fod yn gyfuniad o gyflawniadau a bydd yn llorweddol mewn rhai achosion yn hytrach na llinol.

Cwestiwn 2 – A bwysleisir y sgiliau cywir? A ydych yn meddwl bod unrhyw sgiliau wedi'u hepgor y dylid eu cynnwys?

Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebion fod y sgiliau cywir yn cael eu pwysleisio yn y FfLIRh. Roedd galw pendant am ganllawiau, hyfforddiant a chymorth ar sut y gellir rhoi'r sgiliau yn y FfLIRh ar waith ar draws y cwricwlwm. Roedd rhai themâu yn codi dro ar ôl tro yn ymwneud â'r hyn a ddylai gael ei gynnwys yn y FfLIRh neu ei dynnu ohono – roedd y rhain yn cynnwys y canlynol.

- Mae angen i'r FfLIRh gynnwys pwysigrwydd darllen er pleser er mwyn ysgogi dysgu.
- Dylai ysgrifennu creadigol gael ei gynnwys yn y FfLIRh ar gyfer datblygu llythrennedd ac felly mae angen i destunau ffuglennol gael eu cynnwys yn ogystal â thestunau ffeithiol.
- Roedd ansicrwydd ynghylch p'un a yw'r FfLIRh yn gwerthfawrogi pwysigrwydd llawysgrifen yn fwy na sgiliau TGCh.
- Dylai cymhwyso sgiliau TGCh fod yn rhan o'r gydran rhifedd.
- Mae trosi tymheredd yn ddiangen a dylid ei dynnu am na chaiff tymheredd ei fesur mewn Fahrenheit mwyach.
- Mae angen mwy o waith ar fesur arwynebedd a chyfaint yn y gydran rhifedd.
- Mae angen canllawiau ar sut i roi gofynion y FfLIRh ar waith. Mae angen deunyddiau enghreifftiol ar gyfer athrawon. Efallai bod athrawon Cymraeg, Saesneg a mathemateg yn deall sut i ddefnyddio'r FfLIRh ond mae angen i athrawon pynciau eraill ddeall sut i roi'r sgiliau yn y FfLIRh ar waith mewn cyd-destunau pwrpasol a pherthnasol.
- Roedd pryder ynghylch y berthynas rhwng y FfLIRh a gofynion Gorchmynion pwnc y cwricwlwm cenedlaethol.

Cwestiwn 3 – A yw'r ieithwedd a ddefnyddir yn y fframwaith yn ddigon manwl? Os nad ydyw, a allwch roi enghreifftiau penodol o'r hyn sydd angen ei newid?

Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn fod ieithwedd y FfLIRh yn ddigon manwl. Nododd rhai fod yr ieithwedd yn fwy defnyddiol nag mewn dogfennau sgiliau neu ganllawiau blaenorol. Fodd bynnag, roedd llawer o'r farn mai dim ond athrawon Cymraeg, Saesneg a mathemateg a fyddai'n deall yr ieithwedd yn llawn, ac y gallai athrawon pynciau eraill ei chael yn anodd ei

deall. Codwyd rhai pryderon ynghylch enghreifftiau lle roedd yr ieithwedd yn y FfLIRh yn amwys. Bydd angen deunydd cymorth hefyd er mwyn i lawer o athrawon ddefnyddio'r FfLIRh. Mae'r prif bwyntiau fel a ganlyn.

- Er mwyn rhannu'r canlyniadau â dysgwyr a rhieni/gofalwyr, mae angen i'r ieithwedd fod yn fwy clir a syml er mwyn iddynt ei deall.
- Dylai'r ieithwedd naill ai gael ei symleiddio neu dylid darparu rhestrau termau manwl ar gyfer athrawon nad ydynt yn arbenigol yn y maes.
- Mae'r ieithwedd a ddefnyddir yn y fersiwn Gymraeg yn amwys o bryd i'w gilydd a gallai sefydliadau gwahanol ei dehongli mewn ffordd wahanol. Nid oes diffiniad clir o 'Gymraeg safonol'.
- Dylai rhywfaint o'r derminoleg gael ei newid, h.y. gallai 'cydrannau', 'elfennau' ac 'agweddau' achosi dryswch yn arbennig i bobl nad ydynt yn arbenigol yn y maes.
- Ystyriwyd ar y cyfan bod cydran rhifedd y FfLIRh yn fwy manwl na'r gydran llythrennedd. Er enghraifft, ystyriwyd bod 'ysgrifennu er gwybodaeth' yn ddryslyd wrth addysgu mathau gwahanol o destunau. Roedd 'darllen er gwybodaeth' yn cynnwys darllen am 'gyfnodau hir' ond nid oedd yn diffinio faint o amser yn union.
- Ystyriwyd bod y geiriau 'dechrau deall' yn rhy amwys am fod dysgwr naill ai'n deall neu ddim.
- Ar y cyfan, mae'r ieithwedd a ddefnyddir yn yr 'Ar Drywydd' yn glir, diamwys ac yn ddefnyddiol ond mae rhywfaint o ddryswch o ran y teitlau, h.y. gallai 'Ar Drywydd Llythrennedd' ac 'Ar Drywydd Rhifedd' gael eu drysu â'r rhaglenni 'Ar Drywydd Dysgu'.
- Er ei bod yn fanwl, gall yr ieithwedd fod yn anhyblyg ac yn or-ragnodol; mae angen amser a lle ar ddysgwyr i dyfu a dysgu.
- Mae angen arweiniad a chymorth i helpu athrawon. Mae angen cymorth i ddeall cynnydd, terminoleg a thermau allweddol.

Cwestiwn 4 – A yw'n briodol ei gwneud hi'n ofynnol i ysgolion cyfrwng Cymraeg hefyd asesu yn erbyn y fframwaith Saesneg o Flwyddyn 4 ymlaen?

Roedd y rhan fwyaf o'r farn ei bod yn briodol ei gwneud yn ofynnol i ysgolion cyfrwng Cymraeg asesu yn erbyn y gydran llythrennedd cyfrwng Saesneg o Flwyddyn 4 ymlaen am fod angen i ddysgwyr ysgolion cyfrwng Cymraeg feddu ar yr un lefel o sgiliau llythrennedd Saesneg â'r rheini mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Fodd bynnag, roedd rhai yn dadlau na ddylai fod yn ofyniad statudol ond y dylai'r ysgol ei hun allu penderfynu a yw am asesu yn erbyn y gydran llythrennedd cyfrwng Saesneg ai peidio. Roedd y prif bwyntiau a godwyd fel a ganlyn.

- Mae'n briodol ei gwneud yn ofynnol i ysgolion cyfrwng Cymraeg asesu yn erbyn y gydran llythrennedd cyfrwng Saesneg o Flwyddyn 4 ymlaen am fod angen i bob dysgwr yng Nghymru fod yn ymarferol llythrennog yn Saesneg.
- Byddai rhyw fath o asesu yn briodol fel y gall dysgwyr cyfrwng Cymraeg feddu ar sgiliau yn Saesneg y bydd eu hangen arnynt os byddant yn symud o Gymru.
- Ni ddylai fod yn orfodol; dylai ysgolion neu ddysgwyr gael y dewis i asesu yn erbyn y gydran llythrennedd cyfrwng Saesneg ai peidio.
- Mae'n briodol, ond bydd yn golygu bod gan ysgolion cyfrwng Cymraeg fwy o lwyth gwaith am fydd angen iddynt asesu yn erbyn y dau fersiwn o'r gydran llythrennedd ac mae angen ystyried a oes gan ysgol cyfrwng Cymraeg y gallu a'r adnoddau i fodloni gofynion y ddau.
- Byddai'n tanseilio'r nod i ddarparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a gallai roi polisïau iaith ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y fantol.
- Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, dim ond mewn gwersi Saesneg iaith y gellir asesu llythrennedd Saesneg, felly nid oes unrhyw gyfleoedd eraill i asesu yn erbyn y gydran llythrennedd cyfrwng Saesneg.
- Byddai'n briodol cyflwyno hyn ar ffin cyfnod allweddol ym Mlwyddyn 3 yn hytrach na Blwyddyn 4.

Cwestiwn 5 – Bydd yn ofynnol i athrawon gwblhau asesiad ar gyfer pob dysgwr yn erbyn y datganiadau sy'n gysylltiedig â'r oedran priodol yn y fframwaith. A fyddai templed dewisol er mwyn cofnodi ac adrodd yr asesiadau hyn yn ddefnyddiol i athrawon?

Nododd mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr y byddai templed yn ddefnyddiol iawn er mwyn cofnodi ac adrodd asesiadau ac y byddai angen templed safonol er mwyn sicrhau cysondeb. Codwyd pryderon ynghylch y llwythi gwaith ychwanegol a fyddai yn sgil yr asesiad ychwanegol, yn ogystal â phryderon ynghylch pwy fyddai'n gyfrifol am weinyddu'r adnodd olrhain. Mae'r prif bwyntiau fel a ganlyn.

- Mae'r syniad o gynnal asesiadau o flwyddyn i flwyddyn yn dda oherwydd bod y FfLIRh yn rhoi arweiniad clir i athrawon ar yr hyn i'w addysgu a'i asesu ond mae angen i'r profion hyn gwmpasu'r ystod gyfan o sgiliau yn y FfLIRh.
- Mae'n bwysig bod templed yn sicrhau cysondeb o ran cofnodi asesiadau a marcio ar draws yr ysgol, ALI, y rhanbarth a Chymru gyfan. Byddai system olrhain safonol a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru yn lleihau'r gwaith a gaiff ei ddyblygu.

- Nododd llawer y byddai rhywbeth sy'n gysylltiedig â'r adnodd olrhain INCERTS yn ddefnyddiol gan fod llawer o ysgolion eisoes yn defnyddio'r system hon neu adnoddau eraill er mwyn olrhain cynnydd dysgwyr.
- Byddai angen canllawiau clir a chyingor ar sut i gyflwyno'r canlyniadau i'r rhieni/gofalwyr o ystyried bod profion y FfLIRh yn ychwanegol i brofion y cwricwlwm cenedlaethol.
- Byddai angen i'r system olrhain fod yn electronig fel bod modd casglu tystiolaeth a dylai fod ar gael yn hawdd i athrawon gan ddefnyddio amrywiaeth o ddyfeisiau gwahanol i gael mynediad i'r wybodaeth.
- Mae'n bwysig nad yw'r adnodd olrhain yn arwain at ymarfer 'rhestr wirio' a dylai defnydd o adnodd o'r fath fod yn ddewisol yn hytrach nag yn statudol o ystyried bod gan rai ysgolion eu systemau olrhain effeithiol eu hunain eisoes.
- Byddai angen deunyddiau enghreifftiol ar sut i ddefnyddio'r adnodd gan y bydd angen rhoi llawer o hyfforddiant i staff.
- Roedd pryderon na fydd digon o amser ar gael i asesu pob dysgwr yn erbyn y FfLIRh yn ogystal ag asesu yn erbyn Gorchmynion pwnc y cwricwlwm cenedlaethol; roedd pryderon hefyd ynghylch pwy fydd yn gyfrifol am gofnodi gwybodaeth am asesiadau a sut i adrodd gwybodaeth ansoddol yn ôl i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr.

Cwestiwn 6 – A ddylai Ar Drywydd Dysgu ddatblygu'n sylfaen statudol ar gyfer asesu dysgwyr a chanddynt anghenion cymhleth/anawsterau dysgu dwys a lluosog?

Roedd cryn ansicrwydd yn yr ymatebion o ran a ddylai Ar Drywydd Dysgu fod yn sail statudol ar gyfer asesu dysgwyr ag anghenion mwy cymhleth. Roedd y prif bwyntiau fel a ganlyn.

- Mae rhan 'Ar Drywydd' y FfLIRh yn sicrhau bod cyfle cyfartal i'r sbectrwm galluoedd cyfan ac y dylai'r FfLIRh fod i bob dysgwr – ni ddylai dysgwyr ag ADY difrifol fod ar wahân.
- Mae angen cyfeirio rhywfaint at y lefelau P yn y gydran llythrennedd. Mae angen egluro sut i gysylltu'r lefelau P a ddefnyddir ar hyn o bryd mewn lleoliadau arbenigol mewn ysgolion prif ffrwd. Mae angen canllawiau ar ba ddysgwyr a all ddilyn y rhaglen 'Ar Drywydd Dysgu' mewn ystafell ddosbarth brif ffrwd.
- Roedd pryderon wrth ddefnyddio datganiadau sy'n ymwneud ag oedran ar gyfer dysgwyr ag ADY am nad ydynt yn gweithio yn ôl eu hoedran cronolegol. Gallai cyflwyno canlyniadau asesu dysgwyr ag ADY beri ddigalondid. Yn hyn o beth, credir y byddai'r gydrannau Ar Drywydd yn iawn fel adnodd cynllunio ond nid fel adnodd asesu.

- Dylai ysgolion allu gwneud penderfyniadau unigol ar faterion sy'n ymwneud ag ADY yn hytrach na bod asesiadau statudol yn cael eu rhoi ar waith.
- Dylai'r cyfeiriadau at ddysgwyr ag ADY gyfeirio hefyd at ddysgwyr y mae Cymraeg a Saesneg yn ieithoedd ychwanegol iddynt.
- O ran y dysgwyr hynny ag ADY nad oes ganddynt anawsterau dysgu dwys, mae bwlb rhwng prif cydrannau'r FfLIRh a'r gydrannau Ar Drywydd – mae angen egluro a all y dysgwyr hyn weithio'n effeithiol am eu bod ychydig flynyddoedd ar ei hôl hi mewn perthynas â'u hoedran cronolegol.

Cwestiwn 7 – Ochr yn ochr â'r profion darllen statudol, caiff cronfa o ddeunydd ffurfiannol o ansawdd uchel ei datblygu i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth. Bydd y 'profion' hyn yn ddewisol, ond pa mor debygol yw hi y bydd athrawon ystafell ddosbarth yn defnyddio'r adnodd hwn, a pha fath o adnodd fyddai'n fwyaf defnyddiol?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn y byddai deunydd ategol yn ddefnyddiol, gyda rhai yn ymateb y byddai'n hanfodol cyflwyno deunydd ffurfiannol pe bai'r profion cenedlaethol yn darparu data i lywio'r gwaith o addysgu darllen yn hytrach na bod yn ddyfais olrhain yn unig. Fodd bynnag, roedd llawer o ymatebwyr o'r farn ei bod yn anodd asesu graddau cyflawni heb gael gwybodaeth ymlaen llaw am ffurf y prawf, a nododd rhai fod eisoes digon o ddeunydd ategol mewn ysgolion. Roedd nifer sylweddol o ymatebwyr ar ddeall bod y 'deunydd ychwanegol' yn golygu profion enghreifftiol neu 'brofion ymarferol'. Er i rai groesawu hyn, roedd llawer o'r farn y byddai'n annog diwylliant o addysgu er mwyn cyflawni'r prawf. Roedd y prif bwyntiau fel a ganlyn.

- Er mwyn i ddeunyddiau ategol fod yn ddefnyddiol, byddai angen iddynt fod yn ddigon hawdd i'w gweinyddu a'u marcio. Dylent ddangos cryfderau a meysydd i'w gwella dysgwyr yn glir. Byddai croeso yn arbennig i ddeunydd ffurfiannol a fyddai'n helpu gwaith cynllunio athrawon drwy sefydlu'r ffordd ymlaen gyda dysgwyr.
- Er mwyn i'r deunyddiau ategol gael eu defnyddio ar draws y cwricwlwm, byddai angen iddynt fod ar sail themâu neu'n benodol i bynciau oherwydd er bod gan athrawon gyfrifoldeb i godi safonau llythrennedd a rhifedd, mae'n rhaid iddynt gynnal safonau yn eu meysydd pwnc eu hunain.
- Mae angen i unrhyw ddeunyddiau ategol a lunnir fod yn ddiddorol, deniadol ac yn addas at y diben. Dylai hefyd fod ar gael ar ffurf gyfrifiadurol ar gyfer y rheini na allant gael mynediad at brofion papur.
- Dylai athrawon allu defnyddio unrhyw ddeunydd ychwanegol mewn ffordd hyblyg er mwyn diwallu eu hanghenion addysgu ac nid mewn ffordd ragnodol. Rhoddodd sawl ymatebydd sylwadau ar

ddefnyddioldeb y deunyddiau ategol a luniwyd ar gyfer Ar Drywydd Dysgu ac roeddent o'r farn y dylai'r profion ychwanegol fod yn addas i'w defnyddio yn yr un ffordd.

- Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn y byddai deunyddiau sampl a oedd yn adlewyrchu fformat y prawf ac yn gallu cael eu defnyddio fel adnodd ymarfer yn fwy defnyddiol na deunyddiau ffurfiannol ychwanegol. Roedd asesiadau ffurfiannol eisoes yn cael eu gwneud gan athrawon yn gyson ar bob cam o gynnydd dysgwyr.
- Byddai cynnal profion yn amlach na'r angen yn wrthgynhyrchol i ddysgu.
- Dylai hyfforddiant gael ei ddarparu i athrawon ar sut i ddefnyddio'r deunyddiau dewisol. Byddai'n hanfodol i gydlynwyr llythrennedd a rhifedd gael hyfforddiant.
- Byddai angen i faterion llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r profion dewisol gael eu hystyried yn ofalus.

Cwestiwn 8 – Bydd y profion darllen a rhifedd yn cynhyrchu sgorau safonedig a sgorau cynnydd. A ddylid darparu cyfatebiaeth oedran hefyd?

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn y dylid llunio sgorau sy'n cyfateb i oedran ochr yn ochr â sgorau safonedig a sgorau cynnydd. Y farn gyffredinol oedd y byddai sgorau sy'n cyfateb i oedran yn fwy ystyrlon i rieni/gofalwyr er y dywedodd llawer o ymatebwyr, gan gynnwys rhai a oedd o blaid sgorau sy'n cyfateb i oedran, na fyddent yn eu rhannu'n allanol. Y prif ffactor i'r rhai a oedd yn anghytuno â chyflwyno sgorau sy'n cyfateb i oedran oedd yr effaith ddigalon y byddent yn ei chael ar ddysgwyr o allu isel, ag anghenion addysgol arbennig (AAA) a'r rhai â Chymraeg fel Iaith Ychwanegol/Saesneg fel Iaith Ychwanegol ac nad oedd sgorau sy'n cyfateb i oedran yn rhoi mesur o gynnydd y gellir dibynnu arno ar gyfer y dysgwyr hyn. Roedd y prif bwyntiau fel a ganlyn.

- Roedd ymatebwyr a oedd o blaid sgorau sy'n cyfateb i oedran o'r farn ei bod yn gwneud synnwyr i gael y sgorau hyn o'r profion a'u bod yn unol â datganiadau'r FfLIRh sy'n ymwneud ag oedran.
- Roedd llawer hefyd yn ystyried sgorau sy'n cyfateb i oedran yn sail fwy syml i benderfynu ar ddarpariaeth ymyrryd briodol.
- Pwysleisiodd ymatebwyr a oedd yn erbyn defnyddio sgorau sy'n cyfateb i oedran pa mor annibynadwy ydynt a'u potensial i gamarwain dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr a chael eu camddeall.
- Roedd athrawon ADY a'r Gymraeg fel Iaith Ychwanegol/Saesneg fel Iaith Ychwanegol yn bryderus am amherthnasedd sgôr sy'n cyfateb i oedran i'w dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr.

- Cytunwyd ar y cyfan bod sgorau safonedig yn fwy addas i'w dadansoddi.
- Roedd nifer o ymatebwyr yn bryderus y bydd gormod o ffynonellau data yn rhoi safbwyntiau anghyson ar gynnydd dysgwyr. Roedd rhai o'r farn bod deilliannau'r cwricwlwm cenedlaethol a'r Cyfnod Sylfaen yn ddangosyddion mwy dibynadwy o gynnydd na sgôr prawf sy'n cyfateb i oedran.
- Roedd pryder hefyd ynghylch dilysrwydd a diogelwch y dyddiad y byddai'r sgorau yn cael eu cyfrifo.

Cwestiwn 9 – Beth yn eich barn chi yw'r goblygiadau ymarferol yn gysylltiedig â gweinyddu a marcio profion darllen a rhifedd yn eich ysgol?

Roedd yr ymatebion yn amrywio o'r rhai na welodd y bydd unrhyw oblygiadau ymarferol newydd oherwydd y byddai'r prawf cenedlaethol yn disodli'r rhai a ddefnyddir ar hyn o bryd ac y byddai'n cael ei weinyddu a'i farcio yn yr un ffordd, i'r rhai a oedd o'r farn y byddai'r profion yn cael effaith enfawr. Daeth llawer o'r ymatebion diwethaf o ysgolion sy'n defnyddio profion cyfrifiadurol ac yn cael adborth electronig. Roedd y pwyntiau fel a ganlyn.

- Y prif bryder oedd amser; yr amser a gymerir i weinyddu'r prawf, ochr yn ochr â'r tarfu ar yr amserlen, a'r ymrwymiad amser y byddai ei angen er mwyn marcio'r profion. Roedd llawer o'r farn y byddai'r amser a gymerir i gynnal y profion ar draul dysgu yn yr ystafell ddosbarth.
- Roedd athrawon o awdurdodau a oedd yn defnyddio profion cyfrifiadurol ac yn derbyn sgorau a dadansoddiad ohonynt yn electronig yn ystyried dychwelyd i brofion papur yn gam yn ôl.
- Er i rai ymatebwyr groesawu'r 'ffenestr o bythefnos', roedd eraill o'r farn y byddai'n lleihau diogelwch y profion a dilysrwydd y data a gesglir ganddynt.
- Roedd ystyried amser a staffio er mwyn rhoi cymorth i ddysgwyr ag ADY a dysgu mewn ysgolion arbennig yn hanfodol. Roedd rhai ysgolion yn bryderus y byddai angen iddynt ddod â staff ychwanegol i mewn er mwyn rhoi cymorth i ddysgwyr sy'n sefyll y profion.
- Roedd y mater o lwyth gwaith yn amlwg yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn ac roedd llawer o'r farn fod y prawf yn rhoi baich ychwanegol ar ysgolion. Roedd safbwyntiau a gyflwynwyd ar sut y gellid lliniaru hyn yn amrywio o ddefnyddio gweinyddwyr/goruchwylwyr arholiadau allanol i roi'r gorau i'r angen am asesiad athrawon ar gyfnodau allweddol ar gyfer athrawon Cymraeg, Saesneg a mathemateg.

- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai marcio'r prawf yn effeithio mewn modd anghymesur ar aelodau adrannau Cymraeg, Saesneg a mathemateg.
- Y thema gyffredin a oedd yn codi o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn oedd yr angen am farcio allanol. Roedd llawer o ymatebwyr yn bryderus am y goblygiadau o ran amser ond hefyd am ddiogelwch ac uniondeb y profion. Roedd llawer o'r farn bod siawns i'r system gael ei cham-drin. Roedd ofn hefyd y byddai'r anghysondebau sy'n amlwg wrth asesu lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol a deilliannau'r Cyfnod Sylfaen hefyd yn wir gyda chanlyniadau profion, ac y byddai'r profion yn cael eu marcio'n 'or-hael' er mwyn creu'r data gorau. Byddai angen rhyw elfen o gymedroli allanol o leiaf.
- Mae angen canllawiau ar weinyddu a marcio'r profion. Dylai hyn hefyd ystyried materion o ran dysgwyr ag ADY yn ogystal â'r rheini mewn ysgolion arbennig, Unedau Cyfeirio Disgyblion a dosbarthiadau oedran cymysg a'u hathrawon.
- Mae angen ystyried pryd y cynhelir y profion ac mae angen hysbysu ysgolion am hyn ymlaen llaw at ddibenion cynllunio.
- Codwyd hefyd a ddylai ysgolion gael cymorth ariannol er mwyn cyflwyno staff a hyfforddiant ychwanegol ar gyfer ymarferwyr.

Cwestiwn 10 – Pa ddadansoddiadau o'r data profion (er enghraifft y data yn eich Set Ddata Graidd neu a ddarperir drwy DEWi pan gaiff data eu huwchlwytho) fyddai'n ddefnyddiol i gefnogi'r cynllunio ar raddfa'r dysgwr unigol, y dosbarth, yr ysgol neu'r awdurdod lleol (ALI), ac er mwyn cefnogi hunanwerthuso?

Er bod nifer o ymatebwyr yn bryderus am ddilysrwydd y data yn sgil diogelwch a dilysrwydd canlyniadau'r profion, roedd amrywiaeth eang o awgrymiadau ar sut y gallai'r data gael ei gwestiynu'n fwyaf defnyddiol. Roedd y prif themâu a godwyd fel a ganlyn.

- Mae'n rhaid i ysgolion gael unrhyw ddadansoddiad cyn diwedd tymor yr haf fel y gellir ei fwydo'n ôl i gynlluniau gwerthuso a gwella'r ysgol.
- Mae angen canllawiau penodol ar sut y dylai'r data gael ei ddefnyddio.
- Nid yw cyhoeddi data yn genedlaethol yn ddefnyddiol ac mae'n debygol o arwain at dablau cynghrair.

Gallai data gael ei fwydo'n ôl i ysgolion ar y canlynol.

Perfformiad mewn perthynas â:

- cenedl
- prydau ysgol am ddim yn erbyn prydau ysgol nad ydynt am ddim
- ethnigrwydd
- Cymraeg fel Iaith Ychwanegol/Saesneg fel Iaith Ychwanegol
- teithwyr Gwyddelig
- abl a thalentog
- dysgwyr ar drothwy (SS 85–95)
- sgorau cynnydd o flwyddyn i flwyddyn
- perfformiad ar lefel eitem unigol.

Gellir gwneud cymariaethau defnyddiol rhwng:

- dosbarthiadau
- grwpiau blwyddyn
- aelodau eraill o'r teulu o ysgolion
- ysgolion eraill yn yr ALI
- cenedligrwydd
- sgorau profion a lefelau asesu athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Cwestiwn 11 – Cwestiynau yn ymwneud ag agweddau penodol ar yr ymgynghoriad a ofynnwyd gennym yn y ffurflen hon. Os oes gennych fater cysylltiedig na ofynnwyd cwestiwn penodol yn ei gylch mae croeso i chi roi eich sylwadau isod.

Roedd y prif faterion a godwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn fel a ganlyn.

- Roedd pryderon ynghylch yr amserlen i gyflwyno'r FfLIRh. Roedd rhai o'r farn fod hyn yn cael ei ruthro ac y dylai gael ei dreialu'n gyntaf, a dywedodd rhai y byddai'n anodd iawn ei roi ar waith o ystyried y diffyg diwrnodau hyfforddi sydd ar gael.
- Nododd nifer o ymatebion fod angen mwy o ddiwrnodau HMS ar gyfer hyfforddiant yn y FfLIRh.
- Nid yw llawer o athrawon yn hyderus am eu galluedd llythrennedd a rhifedd eu hunain felly mae materion sylweddol ynghylch hyfforddi athrawon i fod yn gymwys yn y meysydd hyn cyn iddynt allu addysgu dysgwyr.
- Mae angen deunyddiau sy'n ymwneud yn benodol â'r cwricwlwm er mwyn dangos i athrawon sut y gallant ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn eu pynciau unigol.
- Codwyd pryder ynghylch peidio â chynnwys darllen er pleser a'r diffyg cyfeirio at wasanaethau llyfrgelloedd.

- Mae angen canllawiau ar sut i helpu dysgwyr y mae Cymraeg a Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt i fod yn rhan o'r FfLIRh.
- Codwyd cwestiynau o ran hyfforddiant a llwythi gwaith.
- Mae angen cydlynriad rhwng y FfLIRh a'r cwricwlwm cenedlaethol, yn arbennig o ran bwydo canlyniadau'n ôl i'r rhieni/gofalwyr.
- Mae angen cysondeb yn y modd y mae'r holl athrawon yn dehongli'r FfLIRh.
- Mae angen enghreifftiau er mwyn dangos sut y byddai'r FfLIRh yn gweithio'n ymarferol.
- Mewn ysgolion uwchradd, codwyd materion o ran pwy fyddai'n cydlynu'r FfLIRh.

Ymateb i'r ymgynghoriad a'r camau nesaf

Ystyriwyd yr ymatebion i'r ymgynghoriad wrth baratoi'r fersiwn derfynol o'r FfLIRh a gaiff ei gyflwyno i ysgolion ar sail wirfoddol ym mis Ionawr 2013. Rydym yn cymryd y camau canlynol mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

Diwygiadau i'r FfLIRh

Diwygiwyd rhai agweddau ar y FfLIRh yn sgil yr ymatebion defnyddiol iawn a gawsom i'r ymgynghoriad, e.e. mae llinyn darllen y gydran llythrennedd wedi'i newid mewn ymateb i bryderon y gallai'r teitl 'darllen er gwybodaeth' danseilio pwysigrwydd darllenwyr yn darllen er pleser. Erbyn hyn, mae'n cyfeirio at 'ddarllen ar draws y cwricwlwm'. O ganlyniad i adborth i'r ymgynghoriad, rydym wedi tynnu'r term 'Fahrenheit' oherwydd ystyriwyd ei bod yn hen ffordd o fesur tymheredd, ac yn y cydrannau llythrennedd a rhifedd, ychwanegwyd colofnau 'Ymestyn' at y FfLIRh er mwyn ymestyn cyflawnwyr uchel.

Bydd fersiwn derfynol o'r FfLIRh ar gael ar Dysgu Cymru o fis Ionawr 2013, cyn ei weithredu'n statudol ym mis Medi 2013.

Ysgolion cyfrwng Cymraeg

Yn yr ymgynghoriad, gofynnwyd am farn y defnydd o gydran llythrennedd cyfrwng Saesneg y FfLIRh mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Cytunodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr â'r egwyddor y dylai'r gydran llythrennedd cyfrwng Saesneg fod yn ofyniad statudol a chael ei asesu o Flwyddyn 4 ymlaen yn unig. Felly, rydym wedi penderfynu y dylai ond fod yn ofynnol i ysgolion cyfrwng Cymraeg ddefnyddio cydran llythrennedd cyfrwng Cymraeg y FfLIRh rhwng y dosbarth Derbyn a Blwyddyn 3, gan gynnwys y dosbarthiadau hynny (ynghyd â'r gydran rhifedd). O Flwyddyn 4 ymlaen, disgwylir i ysgolion cyfrwng Cymraeg ddefnyddio'r cydrannau llythrennedd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Gall ysgolion, wrth gwrs, hefyd ddefnyddio'r gydran llythrennedd cyfrwng Saesneg mewn dosbarthiadau Derbyn a rhwng Blwyddyn 1 a 3 os byddant yn dymuno gwneud hynny.

Hyfforddiant a chymorth – rhaglen gymorth genedlaethol newydd

Mae cyfres o ganllawiau a deunyddiau hyfforddiant dwyieithog ar-lein yn cael eu datblygu ar hyn o bryd er mwyn helpu ysgolion i roi'r FfLIRh ar waith cyn y daw'n statudol ym mis Medi 2013. Caiff y cyntaf o'r deunyddiau hyn, canllawiau ar gynllunio'r cwricwlwm a gweithdai hyfforddi, ei gyhoeddi ym mis **Ionawr 2013**, gyda deunyddiau arfer ystafell ddosbarth i ddilyn ym mis **Medi 2013** i gyd-fynd â'r gofyniad i roi'r FfLIRh ar waith yn statudol.

Yn ogystal, rydym bellach yn buddsoddi mwy na **£7 miliwn** mewn rhaglen gymorth genedlaethol newydd a gaiff ei chyflwyno er mwyn cynnig cymorth uniongyrchol i ysgolion ac athrawon i'w helpu i roi'r FfLIRh ar waith yn effeithiol, yn ogystal â sicrhau gwelliannau i'r ffordd y caiff llythrennedd a

rhifedd eu haddysgu mewn ysgolion. Bydd y rhaglen yn dechrau ym mis Ionawr 2013.

Asesu yn erbyn y FfLIRh

Adnodd cynllunio cwricwlwm yw'r FfLIRh yn anad dim. Fodd bynnag, mae hefyd yn gyfle i ysgolion asesu cynnydd dysgwyr ac adrodd i rieni/gofalwyr. Yn yr ymgynghoriad hwn, cynigiwyd y dylai'r FfLIRh gael ei ddefnyddio er mwyn cefnogi asesiad ffurfiannol ac asesu ar gyfer dysgu.

Un o'r themâu allweddol a gododd o'r ymatebion i'r ymgynghoriad oedd y pwysigrwydd i ysgolion sefydlu'r FfLIRh yn eu gwaith o gynllunio'r cwricwlwm ac i hyn, yn ei dro, arwain at newidiadau mewn dysgu ac addysgu. Newidiadau mewn dysgu ac addysgu fydd yn codi safonau yn y pen draw. Er i ymatebwyr gytuno'n gyffredinol y dylid cynnal asesiadau mewn perthynas â chynnydd dysgwyr yn erbyn y disgwyliadau yn y FfLIRh, mynegwyd pryder ynghylch sut y byddai'r gofyniad hwn yn cyd-fynd â gofynion asesu sy'n bodoli eisoes. Codwyd pryderon hefyd am y goblygiadau posibl i lwyth gwaith. Gwnaed y penderfyniad felly y bydd y gofyniad i gynnal asesiadau yn erbyn y FfLIRh yn cael ei gyflwyno fesul cam. Bydd y FfLIRh yn ofyniad statudol o'r cwricwlwm o fis **Medi 2013** a daw asesiad ffurfiol yn erbyn y FfLIRh yn ofyniad statudol o fis **Medi 2014**. Mae hyn yn golygu y bydd gan ysgolion flwyddyn academaidd lawr i ganolbwyntio ar sefydlu'r FfLIRh yn eu gwaith o gynllunio'r cwricwlwm a'u dysgu a'u haddysgu cyn y bydd gofyn iddynt asesu cynnydd dysgwyr yn ei erbyn.

Ar 1 Hydref, cyhoeddwyd y cynhelir adolygiad o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru, yn arbennig er mwyn sicrhau bod y FfLIRh, profion a'r trefniadau asesu ehangach sy'n gweithredu mewn ysgolion yn rhan o gyfanwaith cydlynol. Bydd y dull o roi gofynion asesu'r FfLIRh ar waith fesul cam hefyd yn caniatáu amser i ystyried casgliadau'r adolygiad hwn.

Dylai ysgolion ddefnyddio'r FfLIRh o hyd i gefnogi'r broses o asesu dysgu. Bydd dal yn ofynnol cyflwyno adroddiadau i rieni/gofalwyr ar gynnydd eu plentyn mewn llythrennedd a rhifedd bob blwyddyn o fis Medi 2013. Bydd y gofynion hyn yn gofyn i ysgolion nodi yn yr adroddiadau eu bod yn rhoi gwybodaeth i rieni/gofalwyr pob dysgwr sy'n seiliedig ar y profion rhifedd a darllen yn ogystal ag adroddiad naratif ar lythrennedd a rhifedd sy'n seiliedig ar y FfLIRh. Disgwylir i gyrff llywodraethu hefyd gynnwys, yn eu hadroddiad blynyddol i rieni/gofalwyr, wybodaeth am berfformiad yr ysgol ym maes llythrennedd a rhifedd ar sail y profion darllen a rhifedd ac mewn perthynas â'r FfLIRh.

Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol

Darparu deunydd ategol

Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, mae deunydd asesu ffurfiannol ychwanegol yn cael ei ddatblygu er mwyn cefnogi'r gwaith o addysgu llythrennedd. Mae'r deunydd hwn wedi'i gynllunio i gynorthwyo athrawon i

wneud asesiadau ffurfiannol o waith darllen eu dysgwyr, i ychwanegu at y data o'r asesiad cyfunol a ddarperir gan y profion. Yn ogystal, bydd deunyddiau sampl sy'n berthnasol i'r prif brofion rhifedd a'r prif brofion darllen a'r rhai ffurfiannol ychwanegol ar gael cyn mis Mai 2013 er mwyn helpu ysgolion i'w rhoi ar waith.

Sgorau sy'n cyfateb i oedran

Yn unol â'r consensws o'r ymgynghoriad, bydd sgorau sy'n cyfateb i oedran ar gael er gwybodaeth i rieni/gofalwyr, wedi'u hategu gan gyngor priodol ynghylch sut i'w dehongli. Fodd bynnag, yn sgil pryderon am ddilysrwydd cyffredinol, ni chaiff y sgorau hyn eu defnyddio er mwyn dadansoddi data na'u hadrodd i ysgolion fel rhan o'r dadansoddiad lefel ysgol a ddarperir.

Cymorth pontio yn y broses weithredu

Rydym wedi cynllunio'r profion er mwyn sicrhau eu bod mor syml â phosibl i'w gweinyddu. Mae hefyd yn bwysig nodi y bydd llawer o ysgolion wedi bod yn gweinyddu amrywiaeth o brofion am flynyddoedd lawer, felly bydd y beichiau ychwanegol yn gyfyngedig. Fodd bynnag, bydd rhywfaint o gymorth ychwanegol ar gael i ysgolion ym mlwyddyn gyntaf y profion.

Y defnydd a wneir o ddata a chwestiynu data

Byddwn yn parhau i archwilio, gyda chyflenwyr systemau, pa ddadansoddiadau y gellir eu datblygu er mwyn cynorthwyo ysgolion ac eraill i ddefnyddio'r data o'r profion yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Cyhoeddusrwydd

Cyhoeddwyd y FfLIRh ar ddiwrnod cyntaf yr ymgynghoriad ar-lein drwy gylchlythyrau *Dysg ôl-11a Dysg cyn-11* a chafodd ei hysbysebu ar-lein hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru a gwefan Arsyllfa Dysgu a Sgiliau Cymru.

Cyhoeddwyd y digwyddiadau ymgynghori yn y cylchlythyrau *Dysg ôl-11* a *Dysg cyn-11* ar 25 Mehefin a hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru a gwefan Arsyllfa Dysgu a Sgiliau Cymru.